DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Deintyddfa Lakeside

8 Rhagfyr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | 0300 062 8163 |
| **E-bost:** | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 0300 062 8387 |
| **Gwefan:** | www.hiw.org.uk |

Digidol ISBN 978-1-4734-6187-1
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

   Ansawdd Profiad y Claf ........ 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

   Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth ........ 12

5. Y Camau Nesaf ........ 15

6. Methodoleg ........ 16

   Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a’r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn Neintyddfa Lakeside, 62 Celyn Avenue, Caerdydd, CF23 6EP ar 8 Rhagfyr 2015.

Archwiliodd AGIC sut roedd Deintyddfa Lakeside yn bodloni’r safonau gofal a nodwyd yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) ac mewn  deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd am arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau fod barn cleifion wrth wraidd ein dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae’r gwasanaethau yn cyflenwi gofal diogel, effeithiol a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar y person.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain a ph’un a yw’n arwain at ddarparu gofal effeithiol a diogel. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau’n adolygu ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Lakeside yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn ardal Lakeside yng Nghaerdydd. Mae'r ddeintyddfa yn rhan o wasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Deintyddfa Lakeside yn ddeintyddfa gymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae staff y ddeintyddfa yn cynnwys y prif ddeintydd, tri deintydd arall (un o'r rhain yw'r ymarferwr deintyddol galwedigaethol ar hyn o bryd), dau hylenydd (mae un o'r rhain yn therapydd deintyddol), chwe nyrs ddeintyddol, a dau aelod o staff derbynfa pwrpasol.

## 3. Crynodeb

Mae Deintyddfa Lakeside yn darparu gofal urddasol sy'n canolbwyntio ar y person, ac yn gwneud pob ymdrech i ddarparu hyn mewn modd amserol. Mae gan y ddeintyddfa flwch awgrymiadau i gleifion ddarparu eu hadborth am eu profiadau ac mae'n rhoi pwyslais ar annog cleifion i gynnig eu barn anffurfiol ar wasanaethau a dderbyniwyd, gyda'r bwriad o wella.

Dywedodd yr holl gleifion a siaradodd gyda ni, neu a wnaeth lenwi holiadur AGIC, eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir.

Yn gyffredinol, gwelwyd fod tîm y ddeintyddfa yn cynnig gofal deintyddol effeithiol a diogel i gleifion. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r staff eu bod yn glanhau ac yn diheintio offerynnau deintyddol a ddefnyddir yn ofalus mewn ystafell bwrpasol a oedd yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roeddem hefyd yn fodlon gyda'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion ac roedd y rhain yn dangos tystiolaeth o ofal cleifion unigol, er i ni ganfod yr angen i wella rhai o'r agweddau ar gofnodi ymgynghoriadau cleifion.

Mae Deintyddfa Lakeside wedi'i sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan brif ddeintydd a thîm o staff proffesiynol, llawn cymhelliant. Roedd gan y ddeintyddfa amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Fodd bynnag, gwelwyd fod angen i ddau ddeintydd roi tystiolaeth i ni o dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus ac yn cael cefnogaeth dda iawn yn eu swyddi.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Mae Deintyddfa Lakeside yn darparu gofal urddasol sy'n canolbwyntio ar y person, ac yn gwneud pob ymdrech i ddarparu hyn mewn modd amserol. Mae gan y ddeintyddfa flwch awgrymiadau i gleifion ddarparu eu hadborth am eu profiadau ac mae'n rhoi pwyslais ar annog cleifion i gynnig eu barn anffurfiol ar wasanaethau a dderbyniwyd, gyda'r bwriad o wella.**

**Dywedodd yr holl gleifion a siaradodd gyda ni, neu a wnaeth lenwi holiadur AGIC, eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i dîm y ddeintyddfa ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd un ar hugain o holiaduron wedi'u llenwi eu dychwelyd. Roedd sylwadau gan gleifion yn cynnwys:

> *'Deintyddfa gyfeillgar iawn. Mae'r holl staff yn hyfryd.'*
>
> *'Tîm derbynfa hyfryd a deintydd gwych y byddaf yn ei weld yn rheolaidd.'*
>
> *'Llawn gwybodaeth, gofalus, a bob amser yn gallu fy ngweld mewn argyfwng.'*
>
> *'Mae'r ddeintyddfa bob amser yn rhoi gwasanaeth rhagorol i'n teulu i gyd.'*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Bu i ni siarad gyda thri chlaf oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd pob un ohonyn nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd ac awgrymu fod staff bob amser yn gwrando arnyn nhw ac yn parchu eu barn ynghylch opsiynau gofal a thriniaeth.

Gwelsom fod pobl oedd yn ymweld â'r ddeintyddfa yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan dîm y staff. Mae hyn oherwydd i ni weld fod staff yn hynod broffesiynol, ond yn gyfeillgar, a gwnaethom eu clywed yn bod yn foneddigaidd ac yn gwrtais gyda chleifion mewn galwadau ffôn ac yn ystod sgyrsiau wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd sylwadau a wnaed mewn holiaduron AGIC hefyd fod y cleifion yn cael croeso cynnes pan maen nhw'n ymweld â'r ddeintyddfa.

Gwelsom fod y dderbynfa wedi'i lleoli ychydig i ffwrdd o ystafell aros y cleifion ar y llawr gwaelod. Roedd hyn yn golygu bod staff yn gallu cyfyngu ar gyfleoedd (i bobl oedd yn eistedd yn yr ystafell aros) i glywed y sgwrs gyda chleifion unigol ar unrhyw un adeg. Gwelsom hefyd fod drysau i ystafelloedd triniaeth ar gau pan fo cleifion yn derbyn gofal.

Nododd un claf a lenwodd holiadur nad oedd yn teimlo ei fod yn derbyn digon o wybodaeth am ei driniaeth. Fodd bynnag, ni wnaeth y person dan sylw ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol ar yr agwedd hon o'r gwasanaeth. Dywedodd yr ugain claf arall, heb eithriad, eu bod yn teimlo iddynt gael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. Dangosodd y sampl o gofnodion cleifion a welsom hefyd fod deintyddion yn trafod triniaeth ddeintyddol unigol cleifion gyda nhw.

Roedd gwybodaeth am wasanaethau a chostau deintyddol amrywiol gwasanaeth y GIG a gwasanaeth preifat, a chymhwysedd am driniaeth am ddim ar y GIG, wedi'i arddangos yn glir yn y mannau aros ac yn y dderbynfa er budd cleifion.

Roedd y ddeintyddfa wedi datblygu taflen wybodaeth i gleifion ac roedd copïau o hon ar gael yn hawdd i gleifion fynd â nhw gyda nhw. Golygai hyn fod gan gleifion fynediad at wybodaeth allweddol am y ddeintyddfa y gellir ei chadw ar gyfer y dyfodol.

Gofal amserol

Gwelwyd fod y ddeintyddfa yn ceisio sicrhau fod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Cadarnhawyd hyn drwy sgyrsiau gyda'r tîm staff a thrwy sylwadau a dderbyniwyd mewn holiaduron AGIC. Fodd bynnag, disgrifiodd 11 o gleifion oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiadau. Roedd yr oedi yn amrywio o 'ychydig iawn o amser' i '30 munud'. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl, a bydd trefniadau amgen yn cael eu cynnig.

Dywedodd cleifion a siaradodd gyda ni eu bod wedi gallu cael apwyntiadau arferol ac apwyntiadau brys yn y ddeintyddfa heb unrhyw anhawster.

Roedd rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn amlwg wrth fynedfa'r ddeintyddfa ac ar hysbysfyrddau mewn mannau aros. Roedd y rhif hefyd wedi'i restru yn nhaflen wybodaeth i gleifion y ddeintyddfa. Yn ogystal â hynny, dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb y ddeintyddfa hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y rhif cywir i'w ffonio. Golygai hyn y gallai cleifion gael cyngor ar sut i gael triniaeth pan fo'r ddeintyddfa ar gau.

Aros yn iach

Gwelsom fod deunydd hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion fynd gyda nhw mewn mannau aros ac yn yr ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod er mwyn eu cefnogi i ofalu am iechyd a hylendid eu ceg eu hunain.

Gofal unigol

Roedd gan y ddeintyddfa drefniadau ar waith i helpu pobl gydag anawsterau symudedd gael mynediad at y safle a derbyn gofal a thriniaeth mewn modd diogel. Roedd grisiau’n arwain at fynedfa’r ddeintyddfa o’r maes parcio pwrpasol, ond roedd llwybr disgynnol hefyd yn arwain at y fynedfa y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cadeiriau olwyn. Gwelsom hefyd fod dwy ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, lle mae cleifion nad ydynt yn gallu dringo'r grisiau yn gallu cael gofal a thriniaeth gan y deintydd neu’r hylenydd.

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa flwch awgrymiadau yn y dderbynfa fel y gallai cleifion roi eu hawgrymiadau ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Datgelodd sgyrsiau â staff y dderbynfa a’r uwch ddeintydd fod awgrymiadau a dderbyniwyd yn cael eu hadolygu yn fisol. Pan ofynnwyd am enghraifft o'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i awgrymiadau’r cleifion, dywedwyd wrthym fod hongwyr dillad wedi'u darparu mewn mannau yn y ddeintyddfa fel y gallai cleifion deimlo'n gyffyrddus pan fyddan nhw’n derbyn gofal.

Gwelwyd fod gan y ddeintyddfa weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer delio gyda phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd cofnod ysgrifenedig o hyn yn cael ei gadw yn y ddeintyddfa. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u dwyn i sylw'r ddeintyddfa yn y deuddeg mis diwethaf. Nid oedd gweithdrefn gwynion y ddeintyddfa yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros; yn hytrach, gwelwyd poster yn tynnu sylw at y trefniadau sydd ar waith yng Nghymru ar gyfer cleifion y GIG (a elwir fel arall yn ‘Gweithio i Wella’) ar yr hysbysfwrdd. Roedd taflenni hefyd ar gael i gleifion fynd gyda nhw. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o gleifion a ddychwelodd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am wasanaethau deintyddol y maen nhw yn eu derbyn, os oes angen.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Yn gyffredinol, gwelwyd fod tîm y ddeintyddfa yn cynnig gofal deintyddol effeithiol a diogel i gleifion. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r staff eu bod yn glanhau ac yn diheintio offerynnau deintyddol a ddefnyddir yn ofalus mewn ystafell bwrpasol a oedd yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roeddem hefyd yn fodlon gyda'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel.**

**Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion ac roedd y rhain yn dangos tystiolaeth o ofal cleifion unigol, er i ni ganfod yr angen i wella rhai o'r agweddau ar gofnodi ymgynghoriadau cleifion.**

Gofal diogel

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cwblhau asesiad risg iechyd a diogelwch ar y safle yn ystod mis Hydref 2015. Nid oedd angen unrhyw gamau adferol. Golygai hyn y gwnaed ymdrechion i sicrhau diogelwch cleifion a staff. Gwelwyd ar daith o amgylch y safle fod pob ardal yn yr adeilad lle'r oedd staff a chleifion yn cael ei chynnal a'i chadw'n addas.

Roedd cytundeb casglu a gwaredu gwastraff ar waith ac roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau hynny. Roedd gwastraff clinigol oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael i storio mewn bin diogel, wedi'i gloi yng nghefn y safle.

Yr oeddem yn gallu cadarnhau bod profion offer trydanol cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau ar 7 Mawrth 2015.

Roedd ystafell ddadheintio bwrpasol yn y ddeintyddfa lle'r oedd offerynnau yn cael eu glanhau a'u diheintio ar ôl eu defnyddio. Roedd yr ystafell yn lân, yn daclus ac wedi'i dylunio fel bod llif aer 'budr' i aer 'glân' yn yr ystafell, yn dilyn canllawiau arfer gorau fel sydd wedi'u nodi ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).[1]

Gwelsom fod rota staff ar waith at ddiben cwblhau gwiriadau offer gofynnol yn yr ystafell ddadheintio ar ddechrau ac ar ddiwedd pob diwrnod. Cefnogwyd hyn gan gofnodion sy'n cadarnhau bod gwiriadau offer dyddiol, wythnosol a misol

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Adolygiad 1) yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisiau gofal sylfaenol a deintyddfeydd cymunedol.

yn cael eu cynnal. Bu i sgwrs gydag un o'r nyrsys deintyddol ddangos yn glir fod gan y ddeintyddfa broses wedi'i hen sefydlu ar waith i lanhau a diheintio offer.

Gwelsom fod offer deintyddol yn cael eu pecynnu'n briodol wedi iddynt gael eu diheintio. Gwelsom hefyd fod deunydd pacio offer yn cael ei stampio gyda dyddiad dod i ben 'i'w ddefnyddio erbyn' cyn ei storio, er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ynghylch pryd y dylid eu defnyddio er mwyn diogelu cleifion.

Rhoddwyd copi o archwiliad rheoli heintiau WHTM 01-05 i ni a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 2015. Roedd hyn wedi galluogi'r tîm deintyddol i hunanasesu eu deintyddfa yn erbyn canllawiau ac i ddatblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol. Yn yr achos hwn, roedd y cynllun gwella'n cyfeirio at yr angen i osod ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn hyrwyddo llif aer o'r ardal 'offer budr' i'r man glân penodol. Roedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau cyn ein harolygiad.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y ddeintyddfa i ddelio gydag amrywiaeth o argyfyngau cleifion. Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau mewn argyfwng pe byddai argyfwng claf (llewygu) yn y ddeintyddfa. Storiwyd y rhain yn ddiogel. Fodd bynnag, o wirio cynnwys y pecyn cyffuriau mewn argyfwng, gwelsom fod un eitem (i drin glwcos gwaed isel) wedi pasio ei ddyddiad dod i ben. Er hynny, roedd dewis amgen (powdr glwcos) ar gael ar y pryd yn y practis. Yn ogystal â hynny, roedd tiwb ocsigen ynghlwm i offer yn cynnwys llwch gweladwy, a gwelwyd bod cyfarpar dadebru oedd wedi'i storio mewn cynhwysydd angen ei lanhau.

Cafodd y materion uchod eu dwyn i sylw aelod o'r tîm deintyddol ar unwaith gan nad oedd gan y ddeintyddfa fynediad at yr holl gyffuriau angenrheidiol ac offer glân pe byddai sefyllfa o argyfwng. Cafodd y cyffur oedd wedi dod i ben ei newid yn gyflym yn ystod ein hymweliad, cafodd offer dadebru ei ailbecynnu, a chafodd y cynhwysydd storio ei lanhau. Roedd y ddeintyddfa hefyd yn barod i dderbyn ein sylwadau o ran gwella'r system ar waith i wirio offer a chyffuriau argyfwng.

Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardiopwlmonaidd (CPR).

Roeddem yn gallu cadarnhau bod gan y ddeintyddfa aelod o staff sy'n gweithio yn y practis oedd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd y person dan sylw wedi mynychu hyfforddiant diweddaru fel sy'n ofynnol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa sicrhau fod staff cymorth cyntaf dynodedig yn mynychu hyfforddiant diweddaru fel blaenoriaeth a darparu tystiolaeth o fynychu i AGIC.***

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa ddatganiadau polisi diogelu oedolion a phlant ar wahân ar waith, gan gynnwys rhifau cyswllt timau diogelu lleol i helpu staff. Hefyd, roedd cofnodion hyfforddiant ar gael yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi cael rhywfaint o hyfforddiant diogelu.

Dangosodd archwiliad pellach o gofnodion staff eu bod wedi cyflawni'r gwiriadau cyn-cyflogi angenrheidiol ac wedi cael hyfforddiant rheolaidd ar nifer o bynciau gofynnol a pherthnasol. Golygai hyn fod pwyslais ar sicrhau eu bod yn gymwys i ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau priodol a chyfredol ar waith i staff eu dilyn yn ystod eu gwaith. Datgelodd sgyrsiau gyda staff eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y wybodaeth honno pan fo angen.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y ddeintyddfa. Felly, roeddem yn gallu cadarnhau bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion rheoleiddio. Golygai hyn y gellir trin cleifion yn ddiogel.

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae'r ddeintyddfa'n defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Yn gyffredinol, gwelsom fod cynnwys cofnodion wyth claf yn fanwl ac yn dangos fod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn modd i sicrhau eu diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom y gellid gwella cysondeb o ran cofnodi agweddau ar ymgynghoriadau cleifion.

Yn benodol, cynghorwyd y ddeintyddfa i sicrhau bod trafodaethau ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu ac esboniadau ynghylch sgrinio canser (ceg) yn cael eu cofnodi'n llawn. Cynghorwyd y ddeintyddfa hefyd am yr angen i fod yn eglur wrth gofnodi archwiliadau o rannau o'r geg at ddibenion triniaeth a gofal parhaus. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael cyngor dietegol llafar i'w helpu i ofalu am iechyd eu ceg. Fodd bynnag, ni chofnodwyd cyngor o'r fath yng nghofnodion deintyddol cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol. Yn ogystal â hynny, amlygwyd fod dau o'r wyth pelydr-X cleifion a welwyd o ansawdd gwael o ganlyniad i blatiau pelydr-X diffygiol a oedd angen eu newid cyn gynted â phosibl. Roedd hyn er mwyn galluogi'r deintydd dan sylw i wneud penderfyniadau priodol ynghylch gofal a thriniaeth cleifion yn y dyfodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y ddeintyddfa o'r angen i sicrhau fod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth lawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.***

Datgelodd sgyrsiau gydag aelod o'r tîm deintyddol fod y ddeintyddfa yn bwriadu cynnal archwiliad o gynnwys cofnodion cleifion yn y dyfodol agos fel modd o ganfod meysydd i'w gwella.

Rhoddwyd gwybod i ni hefyd am weithgarwch archwilio a gynhaliwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf (er enghraifft rhagnodi gwrthfiotigau, dadheintio, rhoi'r gorau i ysmygu) fel modd o ganfod, a gwneud, gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

## *Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth*

**Mae Deintyddfa Lakeside wedi'i sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan brif ddeintydd a thîm o staff proffesiynol, llawn cymhelliant. Roedd gan y ddeintyddfa amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Fodd bynnag, gwelsom yr angen i'r ddeintyddfa ddarparu tystiolaeth i ni o dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau o'r deintyddion.**

**Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus ac yn cael cefnogaeth dda iawn yn eu swyddi.**

Mae Deintyddfa Lakeside yn wasanaeth deintyddol annibynnol sefydledig. Roedd y prif ddeintydd yn amlwg yn rhan o weithredu a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd, gan weithio'n agos gyda thîm o staff proffesiynol, yn llawn cymhelliant.

Gwelsom fod staff clinigol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith.

Gwelsom fod cofnodion oedd ar gael yn dangos fod staff wedi cael brechiad yn erbyn Hepatitis B. Roedd hyn fel modd o amddiffyn cleifion a nhw eu hunain rhag haint.

Roedd deintyddion oedd yn gweithio yn y ddeintyddfa yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol gan reoliadau deintyddiaeth breifat.[2] Roedd pob un o'r tystysgrifau yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

Nid oedd gan ddau ddeintydd wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u dyddio yn y tair blynedd diwethaf. Trafodwyd yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r tîm deintyddol.

---

[2] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddarparu tystiolaeth o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwhardd i AGIC yn ymwneud â dau ddeintydd, fel sydd wedi'i nodi yn yr arolygiad hwn. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat bresennol.***

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa yn defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaethau yn achlysurol pan nad yw eu staff rheolaidd ar gael. Buom yn siarad â'r prif ddeintydd am y trefniadau sydd ar waith i wirio cymhwysedd nyrsys o asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa bob amser yn cael sicrwydd llafar am addasrwydd nyrsys o'r asiantaeth, ac roedden nhw'n teimlo fod y wybodaeth hon yn ddibynadwy. Fodd bynnag, cynghorwyd y ddeintyddfa i wneud cais am gofnod o gymwysterau, hyfforddiant a statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[3] pan fyddan nhw'n defnyddio nyrsys asiantaeth yn y dyfodol, er mwyn sicrhau cadarnhad ysgrifenedig o addasrwydd staff asiantaeth.

Roedd gan y tîm deintyddol y sgiliau, yr hyder a'r cymhwysedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth cleifion. Er enghraifft, gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol wedi datblygu rhaglen gynefino i sicrhau ffordd i unrhyw aelod newydd o'r tîm deintyddol  ddod yn gyfarwydd â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â gwasanaethau i gleifion.

Dywedodd staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu gwaith. Dywedwyd wrthym eu bod nhw, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd lle maen nhw'n cael cyfleoedd i godi unrhyw bryderon am wasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i gyfleu gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol sy'n cynorthwyo wrth benderfynu a oedd hyfforddiant a dderbyniwyd yn y cyfnod o

---

[3] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau cyflog mwy diogel ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, drwy gynnal gwiriadau cofnodion troseddol.

ddeuddeng mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd ei angen yn y dyfodol.

Dangosodd trafodaethau gyda staff y dderbynfa a nyrsys deintyddol eu bod yn teimlo’n hyderus i godi pryderon sydd ganddynt am y gwasanaethau sy’n cael eu darparu yn y ganolfan ddeintyddol. Gwelwyd hefyd bod polisi chwythu’r chwiban ar waith oedd yn cynnwys manylion am y bwrdd iechyd ac asiantaethau allanol eraill pe byddai staff yn teimlo bod angen iddynt fynegi pryder am y gyflenwi gwasanaeth ‘y tu allan’ i’r tîm deintyddol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gyflawni cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i'r prif ganfyddiadau o'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y rhoddir sylw i'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer Deintyddfa Lakeside, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y ddeintyddfa mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.

Lle mae camau yng nghynllun gwella'r ddeintyddfa yn parhau i fod angen eu cyflawni a/neu ar y gweill, dylai'r ddeintyddfa roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fo'r rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, wedi cytuno arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r proses arolygu barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigwr 1) wrth wraidd dull AGIC o ran arolygiadau mewn ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw’n disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r safonau yn allweddol i’r dyfarniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigwr 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sydd yn gweithio yn y ddeintyddfa sydd wedi cofrestru gydag AGIC i gynnig deintyddiaeth breifat yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r ddeintyddfa yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion deintyddol
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r ddeintyddfa
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y ddeintyddfa a'r wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i'r ddeintyddfa a'r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae archwiliadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar ddefnyddio safonau yn y ddeintyddfa ar ddiwrnod yr ymweliad.

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Lakeside

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Rhagfyr 2015

| Rhif Tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Dim wedi'u nodi | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 10 | Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa sicrhau fod staff cymorth cyntaf dynodedig yn mynychu hyfforddiant diweddaru fel blaenoriaeth a darparu tystiolaeth o fynychu i AGIC. | | Rydym wedi trefnu i gynnal cwrs cymorth cyntaf 'mewnol' ar gyfer yr holl staff ym mis Ebrill. | | |

| Rhif Tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 | | | | |
| Tudalen 11 | Cynghorir y ddeintyddfa o'r angen i sicrhau fod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth lawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.<br>(Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1) | | Cydnabyddir fod hwn wedi cael ei ddatrys i raddau helaeth. Mae deintyddion yn cofnodi cyngor rhoi'r gorau i ysmygu a sgriniau canser yn benodol. Mae cofnodi am feinwe meddal wedi'i ehangu. | | |
| **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | | | |
| Tudalen 12 | Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddarparu tystiolaeth o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i AGIC yn ymwneud â dau ddeintydd, fel sydd wedi'i nodi yn yr arolygiad hwn. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat bresennol.<br>(Atodlen 2, Rheoliad 13) | | Mae'r ddeintyddfa ar ganol y broses o gael tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | | |

**Cynrychiolydd y Ddeintyddfa:**

**Enw (print):** ..................................................................................................

**Teitl:** ..................................................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................................................